**Adroddiad ar**

**Ysgol Gyfun Dyffryn Taf**
**North Road**
**Hendy-gwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0BD**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/12/2013**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg wirfoddol a reolir i rai 11 i 18 oed yw Ysgol Gyfun Dyffryn Taf, sydd wedi'i lleoli yn nhref Hendy-gwyn yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin, ac sydd dan ofal awdurdod lleol Sir Gâr. Mae 900 o ddisgyblion ar y gofrestr, y mae 161 ohonynt yn y chweched dosbarth. Adeg yr arolygiad blaenorol ym Medi 2007, roedd 1,024 o ddisgyblion ar y gofrestr, yr oedd 140 ohonynt yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn ysgol naturiol ddwyieithog lle mae 8% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel prif iaith yr aelwyd, ac 19% yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae pob disgybl yn astudio Cymraeg hyd at 16 oed ar lefel sy'n gweddu i allu a chefndir ieithyddol pob unigolyn. Mae dosbarth cyfrwng Cymraeg ym mhob grŵp blwyddyn yng nghyfnod allweddol 2 ac mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhynciau'r dyniaethau yn y cyfnod allweddol hwn hefyd. Ceir cyfleoedd i ddilyn cyrsiau TGAU mewn hanes, daearyddiaeth ac astudiaethau crefyddol trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4, os oes galw digonol, er nad oes unrhyw un wedi dewis yr opsiwn hwn ar hyn o bryd.

Daw disgyblion o nifer fawr o ysgolion cynradd partner sy'n cwmpasu ardal o dros 400 o filltiroedd sgwâr, ac mae cyfran fawr iawn ohonynt yn cyrraedd ar fysiau bob dydd. Caiff nifer fawr o ddisgyblion o Sir Benfro eu denu i'r ysgol o Tavernspite, Arberth a Thredeml. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion sy'n cynrychioli'r ystod lawn o allu academaidd a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol. Mae gan bron i 9% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn yn is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.7%. Ar hyn o bryd, mae gan 146 o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys 28 ohonynt sydd â datganiad o'r anghenion hyn.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Dyffryn Taf yn 2013-2014 yw £4,498 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,238 a'r lleiafswm yw £4,233. Mae Ysgol Gyfun Dyffryn Taf yn y 12fed safle o'r 16 ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin o ran y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae perfformiad mewn dangosyddion sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gymwysterau yn gryfach o lawer, ar y cyfan, ac yn dangos patrwm cyffredinol o welliant yn ystod y tair blynedd diwethaf;
- mae ethos cymunedol cryf ac mae disgyblion yn ymgysylltu'n dda â thasgau sy'n cael eu gosod mewn gwersi ac yn canolbwyntio;
- mae'r ysgol wedi gwella ystod y pynciau sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4, deilliannau arholiadau lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4, a chymorth i ddisgyblion; ac
- mae trefniadau ymsefydlu ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo o gyfnod allweddol 2, a chymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn effeithiol.

Fodd bynnag:

- yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, islaw'r disgwyliadau ac wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu dros y pedair blynedd diwethaf;
- mewn lleiafrif o wersi, nid yw lefel yr her yn cael ei chydweddu'n ddigon agos i fodloni anghenion disgyblion; ac
- mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi ei rhoi yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae patrwm o welliant mewn dangosyddion fel y trothwy lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4, a thueddiadau presenoldeb;
- mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ddata i arfarnu perfformiad;
- mae ethos dysgu cadarnhaol ac amgylchedd dysgu deniadol; ac
- mae'r ysgol wedi cydweithio'n effeithiol â'r awdurdod lleol a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau eraill, fel cynllunio ar gyfer llythrennedd a rhifedd, cyflenwi llwybrau dysgu 14-19 a hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn dysgu.

Fodd bynnag:

- mewn lleiafrif o wersi, mae cyflymder y dysgu yn rhy araf;
- nid yw uwch reolwyr wedi defnyddio data a gwybodaeth yn ddigon da yn

strategol i herio a chael gwared â thanberfformiad hirdymor mewn meysydd pwnc allweddol;

- mae effeithiolrwydd rheolwyr canol o ran gwella ansawdd a safonau yn amrywio gormod ar draws meysydd pwnc; ac
- nid yw arfarnu o adolygiadau ac arsylwi gwersi yn arwain yn ddigon systematig at wella cynllunio ac addysgu.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau mewn Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf a mathemateg ar lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4 a'r trothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg

A2 Gwella ansawdd addysgu, dysgu ac asesu yn y pynciau hynny lle mae tanberfformiad cymharol

A3 Gwella cyfraddau presenoldeb

A4 Gwella rheolaeth strategol a sicrhau bod rheolwyr canol yn mynd i'r afael ag agweddau ar danberfformiad cymharol mewn meysydd allweddol yn fwy effeithiol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae patrwm anghyson o berfformiad ar gyfer dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. Mae'r ysgol wedi perfformio islaw cyfartaledd y teulu er 2008 ac wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn gyson is na'r disgwyliadau wedi'u modelu.

Ar y cyfan, mae perfformiad mewn dangosyddion sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gymwysterau yn gryfach o lawer ac yn dangos patrwm cyffredinol o welliant dros y tair blynedd diwethaf. Mae data dros dro ar gyfer 2013 yn dangos gwelliant pellach yn y dangosyddion hyn.

Mae perfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na chyfartaledd yr ysgolion tebyg er 2012. Fodd bynnag, er bod perfformiad mewn Saesneg a mathemateg wedi gwella, mae wedi bod yn agos at gyfartaledd yr ysgolion tebyg, neu'n is, er 2009.

Yn gyffredinol, mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, ac o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4, islaw'r disgwyliadau, yn enwedig mewn dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.

Nid oes yr un disgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ond mae wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn 2013, perfformiodd yr ysgol uwchlaw'r disgwyliadau wedi'u modelu.

Mewn Saesneg a mathemateg, mae perfformiad wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn 2013, arhosodd yn y 25% isaf yn y ddau bwnc o'u cymharu â chanlyniadau ysgolion tebyg, er bod gwyddoniaeth yn yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

At ei gilydd, mae llai o wahaniaeth rhwng perfformiad merched a bechgyn yng nghyfnod allweddol 4 nag mewn ysgolion tebyg, er bod y bwlch ychydig yn fwy yng nghyfnod allweddol 3. Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'r well na'r rhai mewn ysgolion tebyg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau.

Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn perfformio'n dda ac mae deilliannau dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod yn agos at y cyfartaleddau ar gyfer ysgolion tebyg, neu'n uwch.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol ym mhob cyfnod allweddol o ran caffael y medrau a'r wybodaeth sydd eu hangen i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Yn y mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da. Yn y gwersi hyn, gall disgyblion gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda, a galw eu gwaith blaenorol i gof yn gywir. Mewn ychydig o wersi lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd rhagorol, maent yn cyfosod ac yn dadansoddi gwybodaeth yn effeithiol i ddod i gasgliadau craff ynghylch eu gwaith. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd oherwydd diffyg rhediad a her i'w dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus. Mae ychydig o ddisgyblion yn llai hyderus o ran cynnig atebion estynedig. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl ac yn defnyddio ystod o strategaethau darllen i ddethol gwybodaeth a chefnogi eu barn. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir at ystod eang o ddibenion, gan gynnwys disgrifiadau ar gyfer taflenni a dyddiaduron. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o bynciau, mae disgyblion yn defnyddio taflenni gwaith strwythuredig yn rhy aml ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ysgrifennu'n estynedig neu ddatblygu ymatebion mwy creadigol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud gormod o wallau sillafu ac atalnodi yn eu hysgrifennu. Yn ogystal, nid ydynt yn ailddrafftio neu'n cywiro eu gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gywir.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn gwersi. Gallant lunio graffiau llinell a graffiau bar yn gywir, a dehongli ac arfarnu patrymau o'r rhain yn gywir. Maent yn defnyddio pedair rheol rhif, sef lluosi, rhannu, adio a thynnu rhifau yn gywir mewn cyfrifiadau sylfaenol. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn cael trafferth ceisio datrys problemau rhif heb gyfrifiannell.

Mewn Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad ar lefel 5 neu'n uwch wedi bod yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg er 2011 ac, yn 2012, mae'n rhoi'r ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg. Er 2011, mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn agos at y cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg, neu'n is.

Er 2011, mae deilliannau i ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 yn unol â deilliannau ysgolion tebyg, yn gyffredinol. Yn 2013, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg. Mae pob disgybl sy'n astudio Cymraeg ail iaith yn dilyn y cwrs llawn TGAU ac mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud yn dda.

### Lles: Digonol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae llawer o ddisgyblion yn deall sut y gallant gadw eu hunain yn iach a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac yn dangos cwrteisi a pharch tuag at eraill. Maent yn ymgymryd yn dda â thasgau sy'n cael eu gosod mewn gwersi ac yn canolbwyntio'n dda.

Mae'r ffigurau presenoldeb wedi gwella yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, o'u cymharu â ffigurau ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion sydd â hawl i

gael prydau ysgol am ddim, mae ffigurau presenoldeb wedi rhoi'r ysgol yn y 25% isaf ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

Mae cyngor yr ysgol wedi cyfrannu'n eang at wella amgylchedd yr ysgol ac mae'n cyfrannu at ddatblygiadau ysgol-gyfan, fel gwella presenoldeb. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'n cael digon o fewnbwn, er enghraifft i faterion fel ffurfio profiadau dysgu. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae cyngor yr ysgol wedi cael cyfle i enwebu disgyblion i gynrychioli'r dysgwr ar y corff llywodraethol, ond mae wedi gwrthod y cynnig hwnnw.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o wahaniaethau diwylliannol ac maent yn parchu pobl o gefndiroedd eraill. Mae disgyblion hŷn yn mentora disgyblion iau yn effeithiol ac yn magu hyder mewn medrau cymdeithasol, arweinyddiaeth a bywyd.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi mewn gweithgareddau cymunedol yn rheolaidd ac yn datblygu eu hyder yn effeithiol trwy ystod eang o brofiadau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn bodloni'r gofynion statudol. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth sy'n bodloni anghenion disgyblion. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ennill cymwysterau priodol ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol, yn enwedig ar ddeilliannau lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen helaeth o weithgareddau allgyrsiol ac mae nifer uchel o ddisgyblion yn manteisio arnynt. Mae'r rhain yn cael dylanwad cadarnhaol ar ysgogiad, hunan-barch a medrau arweinyddiaeth disgyblion.

Mae trefniadau ymsefydlu ar gyfer disgyblion yn effeithiol. Mae rhaglen o weithgareddau a ddyfeisiwyd yn dda i ddisgyblion a rhieni i gefnogi pontio i gymuned yr ysgol wrth iddynt drosglwyddo o gyfnod allweddol 2. Mae cynlluniau i integreiddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yng nghyfnod allweddol 3 wedi eu rheoli yn dda gan y cydlynwyr llythrennedd a rhifedd. Mae'r ddarpariaeth hon yn dechrau cael effaith gadarnhaol o ran gwella dilyniant o gyfnod allweddol 2 ac ystod yr ysgrifennu estynedig a medrau rhifedd gwell yng nghyfnod allweddol 3. Mae trefniadau ymyrryd addas ar waith i gefnogi disgyblion y mae angen help ychwanegol arnynt i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae darpariaeth Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn werthfawr. Mae'r cwricwlwm ffurfiol a nifer o ddigwyddiadau, fel Eisteddfod yr ysgol, yn hyrwyddo diwylliant ac iaith Cymru yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion astudio pynciau, fel y dyniaethau, trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3. Fodd bynnag, mae disgyblion yn dewis peidio ag astudio'r pynciau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol wedi sicrhau bod addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei hintegreiddio'n dda ym mhob pwnc ar draws y cwricwlwm trwy

gynllunio trylwyr iawn. Mae eco bwyllgor yr ysgol wedi bod yn weithgar o ran gwella tir yr ysgol. Mae cyfleoedd helaeth i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth frwd o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy gysylltiadau â gwledydd eraill.

**Addysgu: Digonol**

Ym mron pob gwers, mae perthynas waith gynhyrchiol rhwng athrawon a disgyblion. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cyfathrebu amcanion dysgu yn glir. Mae cynorthwywyr dosbarth a thechnegwyr yn darparu cymorth da i athrawon a disgyblion fel ei gilydd, ac yn gwella ansawdd gwersi.

Mewn ychydig o wersi lle mae'r addysgu yn fwyaf llwyddiannus, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol trwy gyd-destunau ystyrlon. Mae'r rhain yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i'r cynnydd a wneir gan ddysgwyr.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer gwaith disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae gweithgareddau dychmygus sydd wedi eu cynllunio'n dda, sy'n cysylltu â dysgu blaenorol. Mae athrawon yn y gwersi hyn yn sicrhau bod gan weithgareddau dysgu lefel uchel o her a bod rhediad symbylol i wersi. Maent yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn eu hysgogi yn llwyddiannus gan ddefnyddio ystod eang o adnoddau addysgu a dysgu. Mae gan y mwyafrif o wersi weithgareddau sy'n gweddu'n dda i alluoedd disgyblion ac yn eu caniatáu i weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau yn effeithiol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio holi yn effeithiol i archwilio dealltwriaeth a datblygu medrau ymresymu a meddwl disgyblion.

Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn gwneud gormod i ddisgyblion; nid oes cyfleoedd digonol iddynt gymhwyso a datblygu eu medrau ac mae cyflymder y dysgu yn rhy araf. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn defnyddio holi yn ddigon effeithiol i brofi a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Yn y sesiynau hyn, nid yw lefel yr anhawster yn y gwaith yn gweddu'n ddigon agos i fodloni anghenion disgyblion. Nid yw disgwyliadau'n ddigon uchel ac nid yw addysgu yn herio disgyblion mwy galluog digon bob tro. Mewn ychydig o wersi, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith neu lyfrynnau gwaith yn cyfyngu'n sylweddol ar ddatblygu medrau ysgrifennu a dealltwriaeth ddyfnach o gynnwys y pwnc.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn asesu ac yn marcio gwaith dysgwyr yn gywir ac yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o wersi, nid yw athrawon yn rhoi cyfleoedd digonol i ddisgyblion arfarnu eu cynnydd a datblygu ymwybyddiaeth o ba mor dda y maent yn cyrraedd targedau dysgu.

Mae llawer o athrawon yn dilyn dulliau cyffredin wrth farcio gwaith disgyblion mewn adrannau. Mae mwyafrif o athrawon yn darparu sylwadau defnyddiol ar waith disgyblion ac mae lleiafrif o'r rhain yn darparu arweiniad clir a phenodol ar gryfderau, gwendidau a thargedau ar gyfer gwelliant. Dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n ymateb i'r marcio trwy gwblhau'r gwaith coll neu gywiro gwallau. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu rhaglen addas i olrhain cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol a darparu cymorth priodol.

Mae rhieni yn cael adroddiad cynnydd interim clir ac addysgiadol ar ddiwedd tymor yr hydref. Mae adroddiadau blynyddol sy'n cael eu dosbarthu ar ddiwedd tymor yr haf yn cynnwys sylwebaeth ddefnyddiol ar y cynnydd a gyflawnwyd ym mhob pwnc, ynghyd â gradd cynnydd i arfarnu perfformiad disgyblion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth ar gyfer datblygu a chynorthwyo iechyd a lles emosiynol disgyblion yn un o nodweddion cadarnhaol yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae strategaethau'r ysgol ar gyfer gwella presenoldeb yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin ag unrhyw fwlio neu aflonyddu. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda, yn enwedig trwy raglen effeithiol o ofal bugeiliol ac ystod eang o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Mae athrawon yn cyfrannu'n dda at yr ymdeimlad cryf o gymuned yn yr ysgol ac yn darparu gofal a chymorth bugeiliol effeithiol i ddisgyblion. Mae gan yr ysgol berthynas waith ddefnyddiol ag ystod eang o asiantaethau allanol, fel yr heddlu, iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain yn sicrhau y gall ddisgyblion fanteisio ar gymorth proffesiynol perthnasol, yn ôl yr angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol systemau dibynadwy i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae athrawon yn nodi anghenion penodol disgyblion yn gyflym ac yn monitro eu cynnydd yn ofalus. Caiff cymorth priodol ei roi ar waith i ddisgyblion i'w galluogi i fanteisio ar gwricwlwm eang a chytbwys. Caiff gwybodaeth ddefnyddiol am anghenion unigol pob disgybl ym mhob dosbarth ei darparu i athrawon. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â thargedau priodol sy'n cael eu hamlinellu yn y cynlluniau dysgu unigol, yn helpu athrawon i gynllunio gwaith ac olrhain cynnydd disgyblion ag anawsterau dysgu yn effeithiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Dyffryn Taf yn gymuned gynhwysol lle y gall pob disgybl fanteisio'n gyfartal ar bob agwedd ar ddarpariaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau a ystyriwyd yn ofalus yn sicrhau addysg a chyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag fo'u hanabledd, hil, rhyw neu gefndir. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol. Mae disgyblion Dyffryn Taf yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys ac maent yn falch iawn o'u hysgol a'i hunaniaeth.

Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd ag offer da ac sydd wedi'i gyflwyno'n dda i alluogi disgyblion i gyflawni eu potensial. Mae addysgu yn yr ystafell ddosbarth ac adnoddau dysgu yn bodloni anghenion disgyblion ac yn cyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae arddangosiadau mewn ystafelloedd dosbarth ac ar goridorau yn ddeniadol iawn ac yn cynnwys gwaith disgyblion, yn ogystal â rhoi gwybodaeth briodol am eu cyflawniadau. Mae llyfrgell yr ysgol yn adnodd sy'n datblygu mewn man braf, lle mae disgybl-lyfrgellwyr yn cefnogi'r gwaith ac yn mwynhau bod â

chyfrifoldebau amrywiol. Mae gan yr ysgol adnoddau TGCh da a chânt eu defnyddio yn effeithiol.

Mae'r gampfa a adnewyddwyd yn ddiweddar yn amgylchedd dysgu deniadol o ansawdd uchel, ac mae'n cael ei defnyddio mewn ffordd arloesol i ddatblygu medrau dysgu disgyblion. Mae'r rhaglen iechyd, ffitrwydd a lles yn ysgogi disgyblion i lefel uchel iawn ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn addysg gorfforol ac ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus, beth bynnag fo'u gallu.

Mae adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a chadw a'u rheoli'n dda, ac mae disgyblion wedi cymryd yr awenau o ran ysgogi gwelliannau deniadol i dir yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth wedi cytuno ar flaenoriaethau strategol addas ar gyfer yr ysgol. Mae'r rhain wedi'u seilio'n briodol ar gyflawni safonau uchel o gyflawniad disgyblion, dymuniad cryf i gynnwys pob disgybl, ac ethos sy'n gwerthfawrogi llwyddiant. Gyda'i gilydd, maent wedi creu diwylliant cadarnhaol lle caiff staff eu gwerthfawrogi a lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau eu dysgu.

Mae gan y pennaeth a'r uwch reolwyr rolau a chyfrifoldebau clir a phriodol ac mae'r staff yn deall y rhain yn dda. Mae'r ysgol wedi cydweithio'n effeithiol â'r awdurdod lleol a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a blaenoriaethau eraill fel llythrennedd a rhifedd, defnyddio TGCh mewn dysgu a llwybrau dysgu 14-19. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gwella'r cwricwlwm, deilliannau arholiadau lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4, a chymorth i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae heriau fel gwella lefel 2+ yn parhau o hyd.

Mae uwch reolwyr yn cynnal cyfarfodydd trefnedig rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio digon ar fonitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn rheolaidd. Yn ogystal â hynny, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio digon ar agweddau hanfodol ar berfformiad na'r cynnydd a wnaed tuag at gamau gweithredu cytûn. Er y gall uwch reolwyr fanteisio ar ystod eang o ddata a gwybodaeth am berfformiad, nid ydynt wedi defnyddio'r rhain yn ddigon da yn strategol i herio a chael gwared â thanberfformiad hirdymor mewn meysydd pwnc allweddol, fel Saesneg a mathemateg.

Mae uwch reolwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag arweinwyr canol unigol a grwpiau o athrawon i fonitro a thrafod cynnydd yn erbyn targedau gwella cytûn. Mae ffocws clir ar ddadansoddi data perfformiad a chynnydd disgyblion unigol yn y cyfarfodydd hyn. Er bod uwch reolwyr wedi cynyddu lefel eu her i reolwyr canol ers yr arolygiad diwethaf, mae meysydd allweddol o danberfformiad cymharol o hyd.

Mae gan reolwyr canol ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac maent yn ymrwymedig i gefnogi blaenoriaethau strategol yr ysgol. Maent yn cymryd mwyfwy o gyfrifoldeb dros hunanarfarnu a gwella ansawdd. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd

rheolwyr canol o ran gwella ansawdd a safon yn amrywio gormod ar draws meysydd pwnc.

Mae gan yr ysgol system briodol ar gyfer rheoli perfformiad. Caiff yr holl staff addysgu eu harsylwi'n flynyddol gan uwch reolwyr. Er bod gan bob aelod staff dargedau unigol priodol ar gyfer gwella, nid yw uwch reolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i nodi a mynd i'r afael ag ansawdd addysgu a dysgu mewn meysydd allweddol.

Mae gan y corff llywodraethol gydbwysedd da o brofiad a medrau sy'n cynrychioli'r gymuned yn dda. Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn rhoi ymdeimlad clir o gyfeiriad i uwch reolwyr. Maent yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn gwybod beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol. Mae hunanarfarnu yn tynnu ar ystod o ffynonellau priodol o arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau ac arolygon disgyblion a rhieni.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn cynnwys dadansoddiad manwl a chyffredinol gywir o ddata. Mae'n arfarnol yn bennaf, ac yn darparu tystiolaeth addas i roi darlun dilys o gryfderau a gwendidau'r ysgol yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae gan arweinwyr canol ddealltwriaeth gadarn o ddefnyddio data i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn defnyddio'r data i gymharu cynnydd â chyrhaeddiad blaenorol. Fodd bynnag, dim ond rhai ohonynt sy'n defnyddio'r data yn ddigon da i gymharu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cysylltu'n uniongyrchol â deilliannau hunanarfarnu. Mae blaenoriaethau'n canolbwyntio'n briodol ar feysydd allweddol, fel codi safonau cyflawniad a gwella addysgu a dysgu. Mae'r cynllun yn cynnwys amserlenni bras, y rheiny sy'n gyfrifol a chostau. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys manylion digonol o ran darparu cerrig milltir allweddol ar gyfer monitro'r camau gweithredu arfaethedig. Mae cynlluniau adrannol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau ysgol-gyfan yn briodol. Mae llawer ohonynt yn cynnwys camau gweithredu a strategaethau clir i gefnogi gwelliant, ond nid yw llawer ohonynt yn cynnwys meini prawf llwyddiant mesuradwy na cherrig milltir i fonitro cynnydd.

Mae cynlluniau gweithredu a gweithgareddau adolygu, sy'n cael eu cynhyrchu gan weithgorau athrawon, yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella ystod ysgrifennu estynedig disgyblion ac ar hyder ddisgyblion wrth gymhwyso eu medrau rhif sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw'r arfarnu o adolygiadau ac arsylwi gwersi yn arwain yn ddigon systematig at wella cynllunio ac addysgu.

Mae camau gweithredu o hunanarfarnu wedi arwain at welliannau i'r cwricwlwm trwy gyrsiau ychwanegol, deilliannau arholiadau, yn enwedig ar lefel 2 yng nghyfnod allweddol 4, ac ansawdd y cymorth i lawer o ddisgyblion. Fodd bynnag, ni fu cydlynu strategol digon clir wrth gynllunio i wneud gwelliannau angenrheidiol i fynd i'r afael â diffygion mewn addysgu ac asesu mewn meysydd allweddol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd boddhaol wrth fynd i'r afael â thua hanner yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, bu cynnydd arafach o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn ymwneud â thrylwyrder hunanarfarnu ag agweddau ar gynnwys disgyblion mewn gweithdrefnau asesu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr â rhieni. Caiff rhieni gwybodaeth dda am ddatblygiadau'r ysgol ac maent yn gallu cysylltu â'r ysgol â chwestiynau, awgrymiadau neu broblemau. Ymgynghorwyd yn briodol â rhieni ar agweddau sy'n effeithio ar addysg eu plentyn.

Mae cysylltiadau â phartneriaid strategol ym mhartneriaeth Taf Myrddin, sef partneriaeth sy'n cynnwys ysgolion lleol a choleg addysg bellach, yn ogystal â darparwyr preifat, yn fuddiol o ran ymestyn ystod y cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau, lles a pharatoi dysgwyr ar gyfer addysg bellach, hyfforddiant neu'r byd gwaith.

Mae partneriaethau ag ysgolion cynradd yn llwyddiannus iawn ac yn cyfrannu at bontio effeithiol a pharhad cwricwlaidd. Mae'r ysgol yn defnyddio'r awdurdod lleol a gwasanaethau eraill yn effeithiol i gefnogi disgyblion, er enghraifft lle mae staff colegau yn addysgu cyrsiau galwedigaethol yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda iawn â nifer o sefydliadau a grwpiau cymuned, er enghraifft i gynorthwyo'r henoed i ddatblygu dealltwriaeth o gyfrifiaduron.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei adnoddau yn effeithiol dros ben. Caiff athrawon eu defnyddio'n briodol ac mae ganddynt gymwysterau addas i addysgu'r cwricwlwm. Mae cynorthwywyr dosbarth yn darparu cymorth buddiol. Mae tri gweithgor dylanwadol o athrawon yn yr ysgol sy'n arwain mentrau gwella ysgol allweddol mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh. Maent yn nodi ac yn rhannu arfer addysgu a dysgu effeithiol yn yr ysgol a'r tu hwnt iddi. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella'r ysgol, er enghraifft, mewn darparu dysgu digidol. Caiff systemau rheoli perfformiad eu defnyddio'n briodol i nodi anghenion datblygu staff.

Mae gan yr ysgol systemau rheoli cyllid cadarn ac mae wedi buddsoddi'n gall er mwyn sicrhau adeilad o ansawdd uchel ac amgylchedd dysgu deniadol. Mae'r ysgol wedi nodi bod TGCh yn elfen allweddol ar wella dysgu, ac mae wedi buddsoddi'n drwm mewn gwella TGCh ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol wedi defnyddio ei chyllid yn effeithiol i sicrhau bod lefel dda o adnoddau dysgu ar gael yn gyffredinol yn yr ysgol. Mae gwariant yn unol â'r gyllideb gyfredol a osodwyd gan y corff llywodraethol.

Ar sail ei pherfformiad presennol, mae'r ysgol yn darparu gwerth boddhaol am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, yn dangos patrwm anghyson ar y cyfan. Mae'r ysgol wedi perfformio islaw cyfartaledd y teulu er 2008. O'i chymharu ag ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae perfformiad wedi rhoi'r ysgol yn yr hanner isaf mewn o leiaf dwy o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn is na'r disgwyliadau wedi'u modelu. Mae'r dangosydd pwnc craidd yn dangos patrwm tebyg o berfformiad anghyson.

At ei gilydd, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 yn gryfach o lawer ac yn dangos patrwm cyffredinol o welliant dros dair blynedd. Mae data dros dro ar gyfer 2013 yn cadarnhau'r duedd o welliant ar gyfer y dangosydd hwn a dangosyddion eraill, fel y sgôr pwyntiau wedi'i chapio a throthwy lefel 1, sy'n agos at gyfartaledd y teulu ac yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2013.

Gwellodd perfformiad lefel 2 mewn Saesneg yn 2013, ond bu'n is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg dros bedair blynedd. Mewn mathemateg, perfformiodd yr ysgol uwchlaw cyfartaledd Cymru yn 2013, ond roedd perfformiad islaw cyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd blaenorol ac yn rhoi'r ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg yn ystod yr un cyfnod. Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi rhoi'r ysgol yn yr hanner uchaf yn gyson er 2011, ac yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn ystod y ddwy flynedd flaenorol.

Yn gyffredinol, mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, ac o gyfnod allweddol 3 i gyfnod allweddol 4, islaw'r disgwyliadau, yn enwedig o ystyried trothwy cynhwysol lefel 2.

Nid oes yr un disgybl wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2013, roedd y deilliant yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion. Mae'r ysgol wedi perfformio islaw cyfartaledd y teulu am dair blynedd ac wedi dirywio o fod yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg yn 2011 i'r 25% isaf yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Yn 2013, perfformiodd yr ysgol uwchlaw'r disgwyliadau wedi'u modelu.

Mewn Saesneg, mae perfformiad wedi gwella yn ystod y tair blynedd diwethaf ond mae'r ysgol wedi parhau yn y 25% isaf o'r teulu o ysgolion tebyg am y ddwy flynedd diwethaf ar gyfer y dangosydd lefel 5+ a'r dangosydd lefel 6+. Mewn mathemateg, mae perfformiad wedi gweld dros gyfnod o dair blynedd ar lefel 5+ ac, yn 2013, roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru ond yn is na chyfartaledd y teulu. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer lefel 5+ a'r 50% is ar gyfer lefel 6+.

Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gwella dros gyfnod o dair blynedd ac, ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Yn 2013, roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth ar y lefel uwch, sef lefel 6+, yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mewn Cymraeg iaith gyntaf, mae perfformiad ar lefel 5 neu'n uwch wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg er 2011 ac, yn 2013, yn rhoi'r ysgol yn y 25% isaf. Er 2011, mae perfformiad mewn Cymraeg iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod yn agos at y cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg neu'n is.

Er 2011, mae deilliannau ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 yn gyffredinol unol â deilliannau ysgolion tebyg, er bod perfformiad ychydig islaw'r cyfartaledd yn 2013. Mae pob disgybl sy'n astudio Cymraeg ail iaith yn dilyn y cwrs TGAU llawn. Mae deilliannau wedi gwella yn 2013, ac mae nifer y disgyblion yn sefyll arholiadau wedi cynyddu hefyd. Yn gyffredinol, bu canlyniadau yn uwch na chanlyniadau ysgolion tebyg er 2009.

At ei gilydd, yng nghyfnod allweddol 4, mae llai o wahaniaeth rhwng perfformiad merched a bechgyn na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru, er bod y blwch fymryn yn fwy yng nghyfnod allweddol 3. Hefyd, mae rhywfaint o amrywiad rhwng pynciau ar draws yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n well na'r disgwyl yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n unol â'r disgwyliadau a'u potensial, yn gyffredinol.

Mae data dros dro ar gyfer 2013 yn dangos bod canran y myfyrwyr sy'n ennill trothwy lefel 3 ar ôl 16 oed yn agos at gyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru, ac y bu'n gyson uwch neu'n agos at y cyfartaleddau hyn dros y pedair blynedd diwethaf. Mae cyrhaeddiad yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2013, cwblhaodd 50% o'r garfan y cymhwyster lefel 3. Enillodd hanner y garfan gymhwyster Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru heb ei dilysu yn 2013.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 230 | 177 | 52 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | |
| | | 42% | 53% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 230 | 113 | 109 | 7 | 1 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 49% | 47% | 3% | 0% | |
| | | 25% | 58% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 230 | 128 | 96 | 6 | 0 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 56% | 42% | 3% | 0% | |
| | | 37% | 53% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 230 | 108 | 105 | 15 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 47% | 46% | 7% | 1% | |
| | | 23% | 57% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 230 | 170 | 55 | 5 | 0 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 74% | 24% | 2% | 0% | |
| | | 45% | 45% | 8% | 1% | |
| I am doing well at school | 227 | 87 | 131 | 9 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 38% | 58% | 4% | 0% | |
| | | 31% | 63% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 230 | 130 | 90 | 10 | 0 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 57% | 39% | 4% | 0% | |
| | | 37% | 56% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 230 | 66 | 124 | 33 | 7 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 29% | 54% | 14% | 3% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 230 | 142 | 82 | 6 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 62% | 36% | 3% | 0% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 230 | 56 | 144 | 27 | 3 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 24% | 63% | 12% | 1% | |
| | | 10% | 56% | 28% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 230 | 117 | 88 | 19 | 6 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 51% | 38% | 8% | 3% | |
| | | 28% | 51% | 17% | 5% | |

| | | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | | 230 | | 70<br>30% | 128<br>56% | 29<br>13% | 3<br>1% | | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | | | 15% | 54% | 26% | 5% | | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | | 230 | | 122<br>53% | 103<br>45% | 4<br>2% | 1<br>0% | | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | | | 33% | 61% | 5% | 1% | | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | | 230 | | 129<br>56% | 91<br>40% | 10<br>4% | 0<br>0% | | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | | | 36% | 55% | 8% | 1% | | |
| The staff respect me and my background | | 230 | | 128<br>56% | 92<br>40% | 8<br>3% | 2<br>1% | | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | | | 36% | 54% | 8% | 2% | | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | | 229 | | 133<br>58% | 89<br>39% | 5<br>2% | 2<br>1% | | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | | | 35% | 57% | 7% | 1% | | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | | 89 | | 32<br>36% | 44<br>49% | 12<br>13% | 1<br>1% | | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | | | 28% | 52% | 15% | 5% | | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | | 44 | | 19<br>43% | 16<br>36% | 9<br>20% | 0<br>0% | | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | | | 27% | 50% | 16% | 7% | | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 344 | 166 | 159 | 14 | 0 | 5 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 48% | 46% | 4% | 0% | | |
| | | 43% | 51% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 348 | 186 | 150 | 7 | 4 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 53% | 43% | 2% | 1% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 348 | 181 | 149 | 13 | 0 | 5 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 52% | 43% | 4% | 0% | | |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 343 | 148 | 164 | 10 | 3 | 18 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 43% | 48% | 3% | 1% | | |
| | | 44% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 342 | 104 | 187 | 20 | 4 | 27 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 30% | 55% | 6% | 1% | | |
| | | 21% | 55% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 341 | 115 | 195 | 14 | 0 | 17 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 34% | 57% | 4% | 0% | | |
| | | 33% | 58% | 4% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 345 | 174 | 163 | 3 | 0 | 5 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 47% | 1% | 0% | | |
| | | 50% | 46% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 342 | 105 | 179 | 27 | 5 | 26 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 52% | 8% | 1% | | |
| | | 31% | 54% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 340 | 109 | 184 | 20 | 7 | 20 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 32% | 54% | 6% | 2% | | |
| | | 32% | 49% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 341 | 124 | 175 | 18 | 3 | 21 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 36% | 51% | 5% | 1% | | |
| | | 33% | 54% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 345 | 171 | 159 | 6 | 0 | 9 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 50% | 46% | 2% | 0% | | |
| | | 40% | 53% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 330 | 126 | 134 | 19 | 5 | 46 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 38% | 41% | 6% | 2% | | |
| | | 31% | 47% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 341 | 120<br>35%<br>33% | 162<br>48%<br>50% | 33<br>10%<br>11% | 3<br>1%<br>2% | 23 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 348 | 154<br>44%<br>41% | 167<br>48%<br>49% | 17<br>5%<br>6% | 2<br>1%<br>2% | 8 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 345 | 101<br>29%<br>27% | 164<br>48%<br>51% | 44<br>13%<br>10% | 4<br>1%<br>2% | 32 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 344 | 127<br>37%<br>35% | 179<br>52%<br>53% | 14<br>4%<br>5% | 1<br>0%<br>1% | 23 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 330 | 79<br>24%<br>26% | 162<br>49%<br>47% | 18<br>5%<br>8% | 5<br>2%<br>2% | 66 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 341 | 125<br>37%<br>35% | 147<br>43%<br>50% | 41<br>12%<br>9% | 1<br>0%<br>2% | 27 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The school is well run. | 344 | 158<br>46%<br>40% | 163<br>47%<br>49% | 11<br>3%<br>5% | 1<br>0%<br>2% | 11 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Jackie Gapper | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Alwyn Thomas | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Cartwright | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Disney | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |